Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 14eg o Ebrill 2010 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.45yh.

Presennol : Y Cyng. Christopher Parish (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Ieuan Gwyn, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Hugh Towns, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Ros Bellamy.

Cof 10/Ebrill / 10 Cyfrifon i'w talu

Morgan & Morgan (cetrisen inc)	£ 35.21
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 45.00
Trywydd Cyf.(datganiad i'r wasg Jas yn y Parc)	£ 23.00
Trywydd Cyf. (Blog y Faeres, cyfieithiadau i'r wefan)	£ 141.59
Trywydd cyf. (cyfieithu cofnodion)	£ 170.34
Ar y gair (cyfieithu cofnodion)	£ 358.50
Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo (treuliau'r Prosiect Drws Agored)	£ 38.00
Ffôn symudol i'r Swyddog Technegol	£ 79.00
Apêl Gelli Aur (gwobrau i'r sioe gŵn)	£ 80.00

Cof 11/ Ebrill / 10 Incwm a dderbyniwyd ym Mawrth 2010

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (rhandaliad am osodiad trydanol)	£ 1,000.00
CSG (grant cynnal a chadw llwybr troed)	£ 972.00

Cof 12/ Ebrill / 10 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 31.3.10)	£ 11,331.14
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 27.3.10)	£ 17,168.45
Cyfrif Maer CTLl (fel ar 20.3.10)	£ 1,225.67

Cof 13/Ebrill / 10 Materion Ariannol Eraill

1. Balansau Cychwynnol y Cyfrifon
   Cyflwynodd y Swyddog Cyllid Falansau cychwynnol y Cyfrifon ar gyfer 2009-10. Fe wnaeth y Cadeirydd, y Cyng. Christopher Parish, ddiolch i Mr Plummer am ei waith.
1. Rhagolwg y Gyllideb Tair Blynedd.
   Fe wnaeth y Pwyllgor argymell na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r rhagolwg presennol.
2. Adroddiad ar y Gofrestr Asedau.

Cyflwynodd y Swyddog Cyllid y Gofrestr Asedau bresennol i'w thrafod. Penderfynwyd y byddai'r Cyng. Colin Jenkins a'r Swyddog Technegol yn cwrdd i ddiweddaru'r gofrestr ac i adrodd yn ôl i Gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Mai.

3. Bancio Ar-lein.
   Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried manteision ac anfanteision agor cyfrifon bancio ar-lein. Cynigodd y Pwyllgor ddau argymhelliad:-
   i) Cynigwyd argymell i'r Pwyllgor Llawn bod y Rheoliadau Ariannol yn cael eu diwygio i ychwanegu, o dan Cyfrifon i'w Talu Eitem 6, Is Baragraff 6.1 , y frawddeg 'dylid gwneud taliadau trwy gyfrwng siec, trosglwyddiad electronig neu orchymyn a wnaethpwyd'.
   Cynigwyd gan y Cyng. Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
   ii) Cynigwyd argymell i'r Pwyllgor Llawn bod y Cyngor yn mabwysiadu Bancio ar-lein, yn ogystal â gweithrediadau llaw.
   Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
4. I agor Dogfennau Tendro ar gyfer y gwaith o amnewid Ffenest yn Siambr y Cyngor.

   a) Cledwyn Moses £ 2,425 heb gynnwys TAW.
   b) Prospect Construction £ 2,800.52 heb gynnwys TAW.
   plws £1,000 os oes angen ffenest newydd

   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y contract yn cael ei roi i Mr Moses, gan mai dyma'r tendr isaf am y gwaith, fel y nodwyd yn y manylebion. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb i blaid. Dim ond dau o'r pedwar tendr a anfonwyd allan a ddychwelwyd.
5. Aelodaeth Flynyddol HOWLTA.
   Cynigodd y Cyng. Julia Jones bod y Cyngor yn adnewyddu ei aelodaeth am gost o £10. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 14 / Ebrill /10 Goblygiadau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi derbyn amcan bris oddi wrth Westward i osod y bracedi newydd i ddal gwresogyddion Neuadd y Sir am £612. Byddai'r mater yn cael ei ystyried gan is-grŵp Neuadd y Sir. Byddai Cyngor yr Eglwys yn anfonebu'r Cyngor am gost llifoleuo'r Eglwys, am gyfanswm o £318.37.

Cof 15/ Ebrill /10 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh.